OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2009 No. 793

# Rheoliadau Wyau a Chywion (Cymru) 2009

## RHAN 3

Wyau yn eu plisgyn ar gyfer eu bwyta

### Rhanddirymiadau sy'n ymwneud ag wyau buarth

**11.**—(1) Trwy randdirymiad o ddarpariaethau pwynt 1 yn Atodiad II i Reoliad y Comisiwn (EC) Rhif 589/2008, caniateir i wyau y mae paragraff (2) yn gymwys iddynt gael eu marchnata fel wyau buarth er iddynt gael eu cynhyrchu mewn system gynhyrchu nad yw'n cydymffurfio ag unrhyw un neu fwy o'r amodau a bennir ym mharagraff (3).

(2) Mae'r paragraff hwn yn gymwys i wyau a gynhyrchir mewn sefydliad a chanddo lai na 350 o ieir dodwy neu sy'n magu ieir dodwy sy'n bridio ar yr adeg pan gynhyrchir yr wyau.

(3) Pennir amodau canlynol Erthygl 4(1) o Gyfarwyddeb y Cyngor 1999/74/EC at ddiben paragraff (1)—

(a) ail frawddeg pwynt 1(d);

(b) pwynt 1(e);

(c) pwynt 2;

(ch) pwynt 3(a)(i); ac

(d) pwynt 3(b)(i).